

**TRIBIWNLYS Y GYMRAEG  
Cyfarwyddyd Ymarfer Rhif 1**

**Cychwyn Cais i'r Tribiwnlys**

1. Mae Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg ('y Tribiwnlys') yn rhoi'r Cyfarwyddyd hwn o dan adran 124(1) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') a Rheol 4 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 ('y Rheolau'). Cafodd ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 124(2) o'r Mesur.

**Pwrpas**

2. Mae Rheol 10 o'r Rheolau yn darparu bod yn rhaid i gais i'r Tribiwnlys gael ei wneud trwy gyflwyno i'r Tribiwnlys ddogfen ysgrifenedig (hysbysiad cais). Mae Rheol 12 yn rhagnodi'r wybodaeth sydd rhaid i'w gynnwys mewn, a chyda, hysbysiad cais.
3. Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw cyhoeddi ffurflen (gweler yr Atodiad) a fydd, trwy ei defnyddio gan geisydd, yn cynorthwyo'r ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) i gydymffurfio â gofynion Rheol 12. Dylid defnyddio'r ffurflen honno ar gyfer cyflwyno hysbysiad cais.
4. Nid yw cynnwys y Cyfarwyddyd hwn yn newid darpariaethau'r Rheolau (na'r Mesur) mewn unrhyw ffordd. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol, felly, i ddefnyddio'r ffurflen isod. Ond bydd defnyddio'r ffurflen yn –
  - sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei rhoi
  - cynorthwyo'r Tribiwnlys i ystyried y wybodaeth honno yn y dull mwyaf cyson ac effeithiol ag sy'n bosibl.

**WELSH LANGUAGE TRIBUNAL  
Practice Direction Number 1**


**Commencing an Application to the Tribunal**

1. The President of the Welsh Language Tribunal ('the Tribunal') makes this direction under section 124(1) of the Welsh Language Measure (Wales) 2011 ('the Measure') and Rule 4 of the Welsh Language Tribunal Rules 2015 ('the Rules'). It has been approved by the Welsh Ministers under section 124(2) of the Measure.

**Purpose**

2. Rule 10 of the Rules provides that an application to the Tribunal must be commenced by submitting to the Tribunal a written document (notice of application). Rule 12 prescribes the information which must be included in and with a notice of application.
3. The purpose of this Practice Direction is to publish a form (see Annex) which, when used by an applicant, will assist the applicant (or the applicant's representative) to conform to the requirements of Rule 12. That form should be used to submit a notice of application.
4. The contents of this Direction do not alter the provisions of the Rule (nor the Measure) in any way. It is not a legal requirement, therefore, to use the form below. But the use of this form will –
  - ensure that all the required information is given
  - assist the Tribunal to consider that information in the most consistent and effective way possible.

**Gwnaed gan Llywydd Tribiwnlys  
y Gymraeg**



.....

Dyddiedig: **21/01/2016**


**Cymeradwywyd gan y Prif Weinidog**



.....

Dyddiedig: **19/01/2016**

**Made by the President of the Welsh  
Language Tribunal**



.....

Dated: **21/01/2016**

**Approved by the First Minister**



.....

Dated: **19/01/2016**

**ATODIAD / ANNEX**

**Ffurflen Hysbysiad Cais / Notice of Application Form**

*(i'w chwblhau gan, neu ar ran, y ceisydd / to be completed by, or on behalf of, the applicant)*

<b>Tribiwnlys y Gymraeg</b> <b>HYSBYSIAD CAIS</b> <i>(Mae cyfeiriadau yn y ffurflen at “y Tribiwnlys” yn gyfeiriadau at Dribiwnlys y Gymraeg ac mae cyfeiriadau at “y Comisiynydd” yn gyfeiriadau at Gomisiynydd y Gymraeg. Mae cyfeiriadau at “y Mesur” yn gyfeiriadau at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011)</i>		<b>Welsh Language Tribunal</b> <b>NOTICE OF APPLICATION</b> <i>(References in the form to “the Tribunal” are references to the Welsh Language Tribunal and references to “the Commissioner” are references to the Welsh Language Commissioner. References to “the Measure” are references to the Welsh Language (Wales) Measure 2011)</i>	
<b>Dewis iaith</b>		<b>Choice of language</b>	
<b>1. A ydych chi am dderbyn (neu, os ydych wedi penodi cynrychiolydd mewn perthynas â'r cais, am i'ch cynrychiolydd dderbyn) cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys yn (a) Gymraeg neu (b) Saesneg?</b>		<b>1. Do you wish to receive (or, if you have appointed a representative for the purpose of the application, for your representative to receive) communications from the Tribunal in (a) Welsh or (b) English?</b>	
<b>Gwybodaeth amdanoch chwi a'ch cynrychiolydd (os oes un)</b>		<b>Information about you and your representative (if you have one)</b>	
<b>2. Eich enw (h.y. enw'r ceisydd – a all fod yn enw corff neu unigolyn ):</b>		<b>2. Your name (i.e. the name of the applicant – which may be the name of a body or individual ) :</b>	
<b>3. Eich cyfeiriad:</b>		<b>3. Your address:</b>	
<b>4. Eich cyfeiriad ebost (os oes un ar gael):</b>		<b>4. Your email address (if one is available):</b>	
<b>5. Eich rhif ffôn (os oes un ar gael):</b>		<b>5. Your telephone number (if one is available):</b>	
<b>6. Eich rhif ffacs (os oes un</b>		<b>6. Your fax number (if one</b>	

ar gael):		is available):
<b>7. Ydych chi wedi penodi cynrychiolydd mewn perthynas â'r cais?</b> ( <i>Os ydych, rhowch y wybodaeth y mae blychau 8-12 yn gofyn amdano.</i> )		<b>7. Have you appointed a representative for the purpose of the application?</b> <i>(If you have, give the information requested by boxes 8-12.)</i>
<b>8. Enw'r cynrychiolydd</b> (ac, yn achos cwmni, enw'r unigolyn sy'n delio gyda'r mater):		<b>8. The name of the representative</b> (and, in the case of a firm, the name of the individual dealing with the matter):
<b>9. Cyfeiriad y cynrychiolydd:</b>		<b>9. The representative's address:</b>
<b>10. Cyfeiriad ebost y cynrychiolydd</b> (os oes un ar gael):		<b>10. The representative's email address</b> (if one is available):
<b>11. Rhif ffôn y cynrychiolydd</b> (os oes un ar gael):		<b>11. The representative's telephone number</b> (if one is available):
<b>12. Rhif ffacs y cynrychiolydd</b> (os oes un ar gael):		<b>12. The representative's fax number</b> (if one is available):
<b>13. At ba gyfeiriad / cyfeiriad ebost y dylai'r Tribiwnlys anfon hysbysiadau a dogfennau eraill ar eich cyfer?</b> <i>(Fel arfer, bydd y Tribiwnlys yn cyfathrebu trwy ebost os bydd hynny'n bosibl.)</i>		<b>13. To what address / email address should the Tribunal send notices and other documents on your behalf?</b> <i>(The Tribunal will normally communicate by email whenever possible.)</i>
<b>Y penderfyniad yr ydych am apelio yn ei erbyn (neu herio)</b> <i>(Ticiwch y blwch sy'n disgrifio natur eich cais.)</i>	<b>The decision you wish to appeal against (or challenge)</b> <i>(Tick the box which describes the nature of your application.)</i>	
<b>14a. Dyfarniad gan y Comisiynydd nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â</b>	<input type="checkbox"/>	<b>14a. A determination by the Commissioner that the requirement to comply with</b>

<p>safon (neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol) yn afresymol neu'n anghymesur; <i>(adran 58 o'r Mesur)</i></p>		<p>a standard (or to comply with a standard in a particular respect) is not unreasonable or disproportionate; <i>(section 58 of the Measure)</i></p>
<p><b>14b. Dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad safon;</b> <i>(adran 95(2) o'r Mesur)</i></p>	<input type="checkbox"/>	<p><b>14b. A determination by the Commissioner that there has been a failure to comply with a standard;</b> <i>(section 95(2) of the Measure)</i></p>
<p><b>14c. Camau gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu eu cymryd;</b> <i>(adran 95(4) o'r Mesur)</i></p>	<input type="checkbox"/>	<p><b>14c. Enforcement action that the Commissioner has decided to take;</b> <i>(section 95(4) of the Measure)</i></p>
<p><b>14d. Dyfarniad gan y Comisiynydd na fu methiant i gydymffurfio â safon;</b> <i>(adran 99(2) o'r Mesur)</i></p>	<input type="checkbox"/>	<p><b>14d. A determination by the Commissioner that there has not been a failure to comply with a standard;</b> <i>(section 99(2) of the Measure)</i></p>
<p><b>14e. Penderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn (neu i derfynu ymchwiliad);</b> <i>(adran 103 o'r Mesur)</i></p>	<input type="checkbox"/>	<p><b>14e. A decision by the Commissioner not to conduct an investigation into a complaint (or to terminate an investigation);</b> <i>(section 103 of the Measure)</i></p>
<p><b>15. Ar ba ddyddiad y cawsoch (hynny yw, y cafodd y ceisydd) gadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad gan y Comisiynydd y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef?</b></p>		<p><b>15. On what date did you (that is, on what date did the applicant) receive written confirmation of the decision of the Commissioner to which this application relates?</b></p>
<p><b>16. Beth yw eich rhesymau dros wneud y cais?</b> <i>(Gallwch rhoi'r rhesymau hyn mewn dogfen ar wahân os oes angen.)</i> <i>(NB Os byddwch am wneud cais o dan adran 103 o'r Mesur, bydd y</i></p>		<p><b>16. What are your reasons for making the application?</b> <i>(You can provide these reasons in a separate document if necessary.)</i> <i>(NB If you wish to make an application under</i></p>

<p><i>Tribiwnlys yn ystyried, yn gyntaf, a ddylid rhoi caniatâd i chwi wneud hynny. Gall yr ystyriaeth honno gael ei seilio ar y rhesymau yr ydych wedi’u rhoi yma.)</i></p>		<p><i>section 103 of the Measure, the Tribunal will first consider whether to give you permission to do so. That consideration may be based on the reasons you have given here.)</i></p>
<p><b>17. Os bydd eich cais yn llwyddo, pa ganlyniad ydych chi (sef y ceisydd) am gael?</b>  <i>(Fel arfer, yr unig bŵer bydd gan y Tribiwnlys bydd cadarnhau neu ddileu penderfyniad y Comisiynydd. Ond yn achos apêl o dan adran 95(4) o’r Mesur, bydd gan y Tribiwnlys bŵer i amrywio’r camau gorfodi. Os ydych am ddadlau dros gamau gorfodi gwahanol i’r rhai y penderfynodd y Comisiynydd arnynt, dylech nodi’r camau gwahanol hynny yma.)</i></p>		<p><b>17. If your application succeeds, what result are you (that is, the applicant) seeking?</b>  <i>(Normally, the only power which the Tribunal has is to affirm or annul the Commissioner’s decision. But in the case of an appeal under section 95(4) of the Measure, the Tribunal may vary the enforcement action. If you wish to argue for different enforcement action from that decided on by the Commissioner, you should note that different action here.)</i></p>
<p><b>18. Fel arfer, rhaid i’ch cais ddod i law’r Tribiwnlys o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy’n cychwyn ar y diwrnod y rhoddodd y Comisiynydd hysbysiad ysgrifenedig o’r penderfyniad sy’n cael ei apelio neu’i herio. Ond mae gan y Tribiwnlys bŵer i ymestyn y cyfnod hwnnw, yn unol â Rheol 14, os bydd rheswm da. A ydych chi (y ceisydd) yn gofyn i’r Tribiwnlys wneud hynny?</b></p>		<p><b>18. Normally, your application must be received within the period of 28 days beginning with the day on which the Commissioner gave written notice of the decision which is being appealed or challenged. But the Tribunal has the power to extend that period, in accordance with Rule 14, if there is good reason. Are you (the applicant) asking the Tribunal to do so?</b></p>
<p><b>19. Os ydych yn gofyn i’r</b></p>		<p><b>19. If you are asking the</b></p>

<p><b>Tribiwnlys ymestyn y cyfnod o 28 diwrnod (gweler blwch 18), rhowch y rhesymau sydd, yn eich barn chwi, yn cyfiawnhau i'r Tribiwnlys (yn unol â Rheol 14) wneud hynny.</b> <i>(Gallwch rhoi'r rhesymau hyn mewn dogfen ar wahân os oes angen.)</i></p>		<p><b>Tribunal to extend the period of 28 days (see box 18), give the reasons which, in your view, justify the Tribunal (in accordance with Rule 14) doing so.</b> <i>(You can provide these reasons in a separate document if necessary.)</i></p>
<p><b>20. A fedrwch gadarnhau bod copi o hysbysiad ysgrifenedig y Comisiynydd o'r penderfyniad y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef wedi'i atodi i'r hysbysiad hwn?</b> <i>(Os na fedrwch, ni fydd y Tribiwnlys yn medru ystyried y cais.)</i></p>		<p><b>20. Are you able to confirm that a copy of the Commissioner's written notice of the decision to which this application relates is appended to this notice?</b> <i>(If you cannot do so, the Tribunal will not be able to consider your application.)</i></p>

**Llofnodwyd.....Signed**

*Rhaid i'r ddogfen hon gael ei llofnodi uchod gan y ceisydd neu gan gynrychilydd y ceisydd, os oes un.  
Os bydd yn cael ei anfon at y Tribiwnlys trwy ddull electronig, bydd ffurf argraffedig o lofnod yn dderbyniol.*

*This document must be signed above by the applicant or by the applicant's representative if there is one.  
If it is sent to the Tribunal electronically, a printed form of signature is acceptable.*

**Dyddiedig..... Dated**